# Rheoliadau ar gyfer y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)

Rheoliad 09: 2024 Fersiwn 01
Dyddiad dod i rym: 24 Ionawr 2024

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn Disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 24 Ionawr 2024. | Fersiwn 2020. | Diweddariad coleg. Gofynion tystiolaeth feddygol. Rhoi gwybod i bartneriaid am ganlyniadau. |
| 1 Awst 2020. | Fersiwn 2017. | Cyfeiriadau at ddogfennau proffesiynol wedi eu diweddaru, cynyddu estyniadau i 3 blynedd, mwy o feini prawf credydau cwrs, cyflwyniadau wedi eu hychwanegu at asesiadau modiwlau, cynyddu'r cyfnod i 6 mis ar gyfer cysylltu ag ysgolion i drefnu lleoliadau ar gyfer ail-arholi myfyrwyr, ac ychwanegu 'Rhaglen Gefnogaeth Ychwanegol' i fyfyrwyr sy'n gwneud cynnydd anfoddhaol tra maent ar leoliad ysgol. |
| 1 Rhagfyr 2017. | Fersiwn 2015. | Mân addasiadau i'r geiriad. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd gan | Dyddiad y cymeradwywyd | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Ysgol Addysg | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig. | 24 Ionawr 2024. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Rheoliadau ar gyfer y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)

Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i fyfyrwyr a ddechreuodd ar eu cwrs TAR ar 7 Mai 2024 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

---

## Rhagarweiniad

1. Rhaid darllen y rheoliadau hyn gyda'r Rheoliadau i Raglenni Hyfforddedig, Adrannau 5-9.
2. Dyfernir Statws Athro Cymwysedig (SAC) gan Y Cyngor Gweithlu Addysg (Cymru) i fyfyrwyr sy'n cwblhau'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) yn llwyddiannus. I gael SAC, rhaid i fyfyrwyr gyflawni'r safonau a bennir fel 'disgrifydd SAC' yn y ddogfen 'Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth' a'r canllawiau atodol. Bydd pryderon ynglŷn ag addasrwydd myfyriwr i addysgu yn cael eu hystyried gan ddefnyddio dogfen 'Trefn Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer' Coleg y Gwyddorau Dynol.

## Derbyn a therfynau amser

3. Rhaid i fyfyrwyr fodloni'r meini prawf dewis a derbyn ar gyfer dod yn Athro Cymwys yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a rhaid iddynt hefyd gwrdd ag unrhyw amodau eraill a bennir gan y Brifysgol.
4. Rhaid i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth, fel y'i diffinnir gan y Brifysgol, i gadarnhau nad oes ganddynt record, troseddol neu fel arall, sy'n eu hatal rhag bod yn fyfyrwyr ac/neu athrawon dan hyfforddiant.
5. Fel rheol mae myfyrwyr yn cofrestru ar gyfer 10 mis o astudio parhaus a rhaid iddynt gwblhau eu cwrs yn ystod y cyfnod hwn.
6. Gellir ymestyn y terfynau amser ar gyfer myfyriwr unigol os oes amgylchiadau lliniarol. Fel rheol ni chaniateir estyniadau o fwy na 3 flynedd o ddyddiad cyfarfod olaf y Bwrdd Arholwyr.
7. Ni chaniateir trosglwyddo credydau ac achredu dysgu profiadol blaenorol (APEL).

## Arholi ac asesu

8. Rhaid i fyfyrwyr gwblhau 120 o gredydau. Rhaid i 60 credyd fod ar Lefel 7 a 60 credyd ar Lefel 6.
9. Asesir modiwlau trwy gyflwyniadau ac aseiniadau ysgrifenedig a phortffolios beirniadol a rhaid i fyfyrwyr ddangos hefyd i fodlonrwydd y Bwrdd Arholwyr eu bod wedi cyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer SAC.
10. Os nad yw myfyriwr yn cyflwyno aseiniad erbyn y dyddiad cyflwyno penodol, bydd ef/hi yn methu'r modiwl a gysylltir â'r aseiniad.
11. Yn achos salwch neu amgylchiadau eithriadol eraill gall y Bwrdd Arholwyr ganiatau estyniad i ddyddiadau cyflwyno.
12. Y marc llwyddo ar gyfer dysgu ymarferol, yr holl fodiwlau, a chydrannau modiwlau yw 40% i fodiwlau ar Lefel 6 a 50% i fodiwlau ar Lefel 7.

13. Os nad yw myfyriwr yn cael marc llwyddo yn y gwaith cwrs a asesir, neu’n methu’r elfennau addysgu ymarferol, gellir ei ailarholi yn y gwaith hwnnw. Dim ond unwaith y gellir ailarholi gwaith cwrs ac addysgu ymarferol.
14. Bydd myfyriwr y bernir ei fod yn gwneud cynnydd anfoddhaol tuag at gyflawni unrhyw un o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a asesir tra ar leoliad ysgol yn cael ei ystyried o fod mewn perygl o fethu'r rhaglen. Bydd y myfyriwr yn cael ei roi ar 'Raglen Gefnogaeth Ychwanegol' am gyfnod o 3 wythnos. Cytunir ar dargedau penodol rhwng yr ysgol, y brifysgol a'r myfyriwr a'u hadolygu ar ddiwedd pob wythnos yn ystod yr amser hwn lle bydd y brifysgol a'r ysgol yn monitro ac yn asesu cynnydd y myfyrwyr. Os na wneir cynnydd digonol ar ddiwedd y cyfnod hwn, cofnodir bod y myfyriwr wedi methu a therfynir y lleoliad.
15. Rhaid rhoi’r dyddiadau cau ar gyfer ailgyflwyno i fyfyrwyr ar yr adeg y’u hysbysir eu bod yn cael ailgyflwyno gwaith. Pan ailgyflwynir gwaith, yr uchaf o'r ddau farc yn hytrach na'r un diweddaraf a ddefnyddir. Mewn unrhyw asesiad atodol, marc llwyddo yw’r marc uchaf y gellir ei roi (40% ar Lefel 6 a 50% ar Lefel 7). Lle mae marc ar gyfer cydran unigol modiwl wedi ei gapio ar 40% ni ddylid capio marc cyffredinol y modiwl onid yw'r gwaith a ailgyflwynir yn cynnwys yr holl farciau sydd ar gael i'r modiwl.
16. Ni ellir ailarholi myfyrwyr mewn unrhyw fodiwl neu uned asesu y maent wedi llwyddo ynddo/ynddi.
17. Y Bwrdd Arholwyr fydd yn penderfynu yn ôl ei ddoethineb a roddir cyfle i ailarholi addysgu ymarferol a bydd yn amodol ar fod lleoliad ysgol addas ar gael. Bydd yr Ysgol yn cysylltu â phob ysgol gymwys mewn ymgais i ddod o hyd i leoliad, ond ni ellir gwarantu'r amserlen ar gyfer hyn. Os na fydd unrhyw ysgol wedi gwirfoddoli i ddarparu lleoliad o fewn cyfnod o 6 mis ar ôl cysylltu â'r ysgolion, yna ni fydd ailarholi'n bosibl a therfynir astudiaethau'r myfyriwr.
18. Bydd yn rhaid talu ffi am ailarholi gwaith cwrs ac addysgu ymarferol ar ôl cyfarfod olaf y Bwrdd Arholwyr. Ni godir ffi am y lleoliad ailsefyll ar fyfyrwyr sy'n gallu darparu tystiolaeth feddygol o salwch a'u hataliodd rhag llwyddo yn eu lleoliad ysgol.

## Amodau a dosbarthiad cymwysterau

19. Gall y Bwrdd Arholwyr ymarfer eu doethineb wrth benderfynu ar y cymwysterau i’w hargymell i fyfyrwyr unigol. Y Bwrdd sy’n gyfrifol am ddehongli rheoliadau asesu’r rhaglen os bydd unrhyw anawsterau’n codi, yng ngoleuni gofynion y Brifysgol ac arfer da mewn addysg uwch.
20. Er mwyn bod yn gymwys i ennill Tystysgrif Addysg i Raddedigion rhaid i fyfyrwyr gael marc llwyddo ym mhob modiwl. Y marc llwyddo yw 40% i fodiwlau ar Lefel 6 a 50% i fodiwlau ar Lefel 7. Rhaid i fyfyrwyr hefyd fodloni’r Bwrdd Arholwyr eu bod wedi datblygu'r safonau a ddisgwylir gan athrawon newydd gymhwyso fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cwblhau’r elfennau addysgu ymarferol yn llwyddiannus.
21. Bydd y Bwrdd Arholwyr yn argymell i’r Brifysgol bod myfyriwr naill ai wedi llwyddo yn y cwrs neu wedi ei fethu. O ganlyniad, bydd y rheolyddion perthnasol yn cael eu hysbysu a byddant yn dyfarnu Statws Athro Cymwys.